

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ward Twymyn, Ysbyty Cymuned
Machynlleth, a Ward Graham Davies,
Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes, Bwrdd
Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad arolygu: 30 a 31 Gorffennaf
2019

Dyddiad cyhoeddi: 31 Hydref 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	25
4.	Beth nesaf?	31
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	32
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	33
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	34
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ward Twymyn, Ysbyty Cymuned Machynlleth, a Ward Graham Davies, Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes, o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 30 a 31 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, dau adolygwr cymheiriaid clinigol a dau adolygwr lleyg (un ym mhob ward). Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod y timau o staff ar y ddwy ward yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ddwy ward, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwyr y wardiau.

Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Ymgysylltu â'r staff
- Gofal ag urddas
- Gwybodaeth i gleifion a gofalwyr
- Yr amgylchedd
- Darparu bwyd
- Ystafelloedd gofal lliniarol ar ward Graham Davies
- Atal a rheoli heintiau
- Goruchwylio gan reolwyr a pha mor weladwy ydynt
- Cefnogaeth a goruchwyliaeth i'r staff.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Ffeiliau gofal y cleifion
- Dogfennaeth asesu trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid
- Polisi ar gyfer defnyddio cyfrwng tewychu
- Siartiau cydbwysedd hylifau

- Defnyddio cyfarpar diogelu personol a golchi dwylo rhwng cleifion
- Rhai agweddau ar hyfforddiant staff
- Rhai agweddau ar reoli meddyginiaeth.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn darparu gwasanaethau gofal iechyd ledled Powys. Mae'n fwrdd iechyd gwledig sydd â thua 133,000 o bobl yn byw mewn ardal chwarter maint Cymru. Mae'n darparu gwasanaethau drwy feddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, ysbytai cymuned a gwasanaethau cymunedol.

Mae Ysbyty Cymuned Machynlleth wedi'i leoli yn nhref Machynlleth, ac mae Ward Twymyn yn cynnwys 14 o welyau ac yn cynnig gwasanaethau meddygol a gwasanaethau adsefydlu. Caiff gwasanaethau meddygol eu darparu gan feddygon teulu sy'n gweithio yng Nghanolfan Iechyd Glantwymyn.

Mae Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes yn ysbyty cymuned sydd wedi'i leoli yn nhref Llanidloes, Powys. Mae Ward Graham Davies yn cynnwys 14 o welyau ac yn cynnig gwasanaethau meddygol a gwasanaethau adsefydlu. Ar adeg yr arolygiad, dim ond saith gwely oedd yn cael eu defnyddio. Caiff gwasanaethau meddygol eu darparu gan feddygon teulu o bractisau yn Llanidloes.

Roedd 10 claf ar ward Twymyn a saith claf ar ward Graham Davies ar adeg yr arolygiad.

Caiff y ddwy ward eu cefnogi'n dda gan dîm amlddisgyblaethol sy'n ymgorffori Ffisiotherapi, Therapi Galwedigaethol, Deieteg, Therapi Lleferydd ac Iaith, Nyrs Arbenigol Clefyd Parkinson, Nyrs Arbenigol Anadlu, Hyfywedd Meinwe, Nyrs Arbenigol Anymataliaeth, Tîm Iechyd Meddwl a Gweithwyr Cymdeithasol.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mynegodd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd ar y ddwy ward. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn dangos parch wrth gefnogi'r cleifion, ac yn diogelu eu hurddas.

Gwelsom fod y cleifion yn gallu symud yn rhydd o gwmpas y ddwy ward.

Gwelsom staff yn ymdrin â'r cleifion mewn modd digynnwrf a oedd yn tawelu'r meddwl.

Roedd yr amgylchedd ar y ddwy ward yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion a'r gofalwyr ar wardiau Twymyn a Graham Davies er mwyn cael eu barn ar safon y gofal a ddarperir i'r cleifion yn yr ysbyty. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron (chwech o ward Twymyn a naw o ward Graham Davies). Gwnaethom hefyd siarad â'r cleifion ar y ddwy ward yn ystod yr arolygiad.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wedi bod ar y wardiau am fwy nag wythnos.

Roedd y cleifion o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad ar y ddwy ward yn ardderchog, ac roedd yr holl gleifion yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi triniaethau a gofalu amdanynt. Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd yn cytuno bod y staff yn darparu gofal pan fo angen.

Cafwyd y sylwadau canlynol gan y cleifion ar ward Graham Davies:

“Mae'r claf o'r farn bod y ward yn gyfeillgar iawn. Dewis da o fwyd”

“Heddychlon braf ar gyfer adfer. Mae'r cleifion yn cael eu hannog i fynd y tu allan”

Cadw'n iach

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain cymaint â phosibl. Pan oedd y cleifion yn methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, oherwydd problemau gyda'r cof, gwelsom fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal a ddarperir yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y ddwy ward yn hyrwyddo adegau bwyd a ddiogelir. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd unrhyw darfu diangen ar y cleifion yn ystod prydau bwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o faeth a hylif. Fodd bynnag, anogwyd perthnasau i ymweld adeg prydau bwyd er mwyn helpu a chefnogi'r cleifion i fwyta, lle y bo'n briodol. Roedd hambyrddau coch yn cael eu defnyddio ar y ddwy ward er mwyn dangos y cleifion hynny roedd angen rhoi cymorth ychwanegol iddynt.

Gwnaethom arsylwi ar adeg prydau bwyd a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf, bwyllog ac urddasol gan roi digon o amser iddynt gnoi a llyncu eu bwyd. Hefyd, gwelsom y staff yn annog y cleifion a'u helpu i fwyta'n annibynnol.

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a chleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd gochelgar a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth. Roedd y staff hefyd yn cynnwys cleifion yn y broses o wneud penderfyniadau am weithgareddau dyddiol.

Roedd y Cynllun Pili Pala¹ ar waith ar y ddwy ward, lle roedd symbolau pili-palod yn cael eu defnyddio er mwyn adnabod cleifion â diagnosis o ddementia neu nam

¹ Nod Cynllun Pili Pala yw gwella diogelwch a llesiant cleifion drwy addysgu'r staff i ymateb i'r bobl â nam ar y cof mewn ffordd gadarnhaol a phriodol, ac mae'n galluogi'r cleifion hynny sy'n dioddef o ddementia, dryswch neu anghofrwydd i ofyn am yr ymateb hwnnw drwy ddefnyddio symbol pili pala disylw yn eu nodiadau.

gwybyddol yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt neu ddull gwahanol o ddarparu gofal. Fodd bynnag, gwelsom fod y defnydd o'r symbol pili pala yn anghyson ar ward Twymyn. Gwnaethom drafod hyn gyda rheolwr y ward a gymerodd gamau ar unwaith i unioni'r sefyllfa.

Gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd, ar y ddwy ward, i wneud yr amgylchedd yn fwy ystyriol o ddementia, gydag arwyddion ar ffurf lluniau yn cael eu defnyddio er mwyn helpu'r cleifion i ddod o hyd i ystafelloedd, fel ystafelloedd ymolchi a thoiledau.

Roedd cynllun Robin Goch² (a elwir yn gynllun Barcud Coch ym Mhowys) ar waith ar Ward Graham Davies, lle roedd gwirfoddolwyr yn mynd i'r wardiau i dreulio amser yn siarad â'r cleifion ac yn eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol.

Gofal ag urddas

Dywedodd y cleifion a ymatebodd i'r holiaduron, a'r rhai y siaradwyd â nhw yn ystod ymweliadau'r arolygiad, fod y staff ar y ddwy ward bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnyn nhw ac ar eu ffrindiau a'u teuluoedd. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff yn cyfeirio atynt gan ddefnyddio eu dewis enw.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm o staff ar y ddwy ward. Hefyd, gwelsom y staff yn bod yn garedig tuag at y cleifion, yn eu trin â pharch ac yn gwneud ymdrech i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth gydag anghenion gofal personol mewn modd preifat. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Ymddengys bod y cleifion yn cael gofal da, gyda'r staff yn rhoi sylw penodol i ymddangosiad a dillad y bobl.

Roedd yr amgylchedd ar y ddwy ward yn lân ac yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gan ychwanegu at ymdeimlad y cleifion o lesiant.

² <https://www.pbccymrydrhan.co.uk/y-robiniaid>

Roedd ystafelloedd gofal lliniarol ar ward Graham Davies a gafodd eu hariannu drwy roddion ariannol a gweithgareddau codi arian a drefnwyd gan Gynghrair Cyfeillion yr ysbyty. Roedd yr ystafell gofal lliniarol yn cynnwys dwy ystafell sengl wedi'u dodrefnu a'u haddurno'n dda, gyda mynediad uniongyrchol i'r ardd.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd ddwyieithog i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael ei harddangos ac roedd ar gael ar y ddwy ward.

Roedd byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion³ yn cael eu defnyddio ar y ddwy ward. Yn swyddfa'r nyrsys oedd y byrddau hyn, a oedd yn golygu bod gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd cymysgedd o staff Cymraeg a Saesneg eu hiaith yn gweithio ar y wardiau, a dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion ar ward Graham Davies a thraean o'r cleifion ar ward Twymyn a ymatebodd i'r holiaduron wrthym fod y staff bob amser yn siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac yn eu helpu i'w deall.

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd digynnwrf ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio eu dewis enwau. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd anogol a chynhwysol.

Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu mewn ieithoedd eraill heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Gofal amserol

Roedd timau'r wardiau yn gweithio'n dda gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd aml-ddisgyblaethol er mwyn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u

³ Mae bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion yn ffordd glir a chyson o arddangos gwybodaeth cleifion mewn wardiau ysbyty.

hasesu. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer cyfeirio newidiadau i anghenion cleifion at weithwyr proffesiynol eraill megis y nyrs hyfywedd meinwe arbenigol, deietegydd, a therapydd lleferydd ac iaith.

Gwelsom fod systemau cynllunio rhyddhau digonol ar waith ar y cyfan, gyda chleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill, megis ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol, cyn gadael yr ysbyty. Fodd bynnag, gwelsom fod oedi cyn i rai cleifion gael eu rhyddhau, a hynny'n bennaf o ganlyniad i brinder darpariaeth gofal cymdeithasol addas.

Dywedodd pob un o'r cleifion ar y ddwy ward a lenwodd holiadur eu bod yn cael digon o amser i fwyta eu bwyd wrth eu pwysau eu hunain, ac roeddent yn cytuno y byddai'r staff yn eu helpu i fwyta ac yfed petai angen; roedd y cleifion yn cytuno bod dŵr o fewn cyrraedd bob amser.

Dywedodd traean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff yn rhoi dewis iddynt o ran pa ddull i'w ddefnyddio i ddefnyddio'r toiled. Hefyd, roeddent yn cytuno bod y staff yn eu helpu gyda'u hanghenion toiled pan fo angen, a hynny mewn modd sensitif fel nad oeddent yn teimlo cywilydd.

Cadarnhaodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod ganddynt fotwm galw, ac roeddent yn cytuno y byddai'r staff yn dod atynt pan fyddent yn defnyddio'r botwm galw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom fod y broses cynllunio gofal ar y ddwy ward yn ystyried safbwyntiau'r cleifion ynglŷn â'r ffordd roeddent am gael gofal. Roedd dogfen Fy Mywyd, Fy

Nymuniadau⁴ yn cael ei defnyddio'n rheolaidd i gasglu rhywfaint o'r wybodaeth hon ar ward Graham Davies.

Drwy ein sgysiau â'r staff a'n harsylwadau, cadarnhawyd gennym fod cleifion a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u hanghenion gofal dyddiol. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd bod y staff yn cynorthwyo ac yn darparu gofal pan fo angen. Gwelsom y staff yn annog ac yn helpu cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Er enghraifft, roedd y staff yn annog y cleifion i gerdded ac yn eu helpu i fwyta ac yfed yn annibynnol.

Gwelsom hefyd fod y cleifion yn cael cymorth i newid o'u dillad nos yn ystod y dydd er mwyn cynnal eu hurddas, hybu eu hannibyniaeth, helpu â'u hadferiad a pharatoi ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel.

Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ofalu amdanynt. Er enghraifft, roedd drysau i ystafelloedd sengl ar gau ac roedd llenni yn cael eu defnyddio o amgylch ardal gwely pan oedd gofal yn cael ei roi.

Gwelsom fod dau o'r cleifion yn destun trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid⁵ ar ward Twymyn. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfennaeth ategol wedi'i chwblhau i safon dderbyniol. Nid oedd unrhyw rai o'r cleifion ar ward Graham Davies yn destun trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Fodd bynnag, gwnaethom nodi claf y gallai fod angen iddo gael asesiad o alluedd meddyliol er

⁴Mae **dogfen 'Fy Mywyd, Fy Nymuniadau'** wedi'i bwriadu ar gyfer pobl sydd â'r galluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau gofal eu hunain ymlaen llaw. Gall person â galluedd meddyliol wneud unrhyw benderfyniad y mae'n **dymuno**, hyd yn oed os yw pobl eraill o'r farn bod y penderfyniad hwnnw'n afresymol neu'n annoeth.

⁵ Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n fodd cyfreithlon i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er ei fudd pennaf ac os mai hon yw'r ffordd leiaf cyfyngol o gadw'r person yn ddiogel rhag niwed.

mwyn canfod a oedd angen gwneud cais am drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, a chafodd y mater ei uwchgyfeirio at y nyrs â chyfrifoldeb am y ward er mwyn iddi gymryd camau gweithredu.

Roedd rhai aelodau o'r staff ar y ddwy ward wedi cael hyfforddiant ar drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, ac roedd rhagor o hyfforddiant wedi'i drefnu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau galluedd meddyliol amserol yn cael eu cwblhau ar gyfer cleifion y mae angen gwneud cais am drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar eu cyfer a bod yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei chwblhau i safon dderbyniol.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Cafodd cleifion a'u cynrychiolwyr gyfleoedd i roi adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd, drwy drafodaethau wyneb yn wyneb â'r staff.

Roedd systemau da ar waith i reoli cwynion a dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a ddaeth i law am y gwasanaeth ar y ddwy ward yn isel.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith, a oedd yn cydymffurfio â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.⁶ Roedd taflenni Gweithio i Wella ar gael ar y ddwy ward, ond nid oedd unrhyw bosteri Gweithio i Wella yn cael eu harddangos ar ward Graham Davies. Roedd blwch sylwadau ar gael ar ward Graham Davies fel ffordd ychwanegol i gleifion ac ymwelwyr fynegi eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir.

⁶ Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod posterï Gweithio i Wella yn cael eu harddangos ar ward Graham Davies.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y timau o staff ar y ddwy ward yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu ac atal cleifion rhag syrthio.

Roedd y wardiau'n lân, yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ffurfiol ar waith. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen mynd i'r afael ag agweddau ar reoli meddyginiaethau.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod y ddwy ward yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac roedd systemau ar waith i roi gwybod am beryglon amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt a'u hunioni.

Roedd archwiliadau cyffredinol, archwiliadau clinigol mwy penodol ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion a staff.

Fodd bynnag, gwelsom ddeunydd glanhau, tiwbiau o dabledi glanhau dannedd gosod a photeli o siampw mewn ardaloedd roedd y cleifion yn gallu mynd iddynt ar ward Graham Davies. Gwelsom hefyd set trwytho mewnwythiennol, gyda bag o hylif trwytho wedi'i gysylltu (a ddefnyddir at ddibenion hyfforddi), mewn ystafell

storio heb ei chloi ar ward Graham Davies. Tynnwyd sylw'r nyrs â chyfrifoldeb at hyn, ac aeth ati i symud yr eitemau ar unwaith.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal ar y ddwy ward (pedwar ar ward Graham Davies a phump ar ward Twymyn) a chadarnhau bod asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer mannau pwyso wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio adnodd asesu nyrsio cydnabyddedig. Gwelsom hefyd fod y cofnodion monitro wedi cael eu cwblhau, gan ddangos bod y staff yn chwilio am arwyddion o friwiau pwyso ar groen y cleifion yn rheolaidd. Roedd offer lleddfu pwysau addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysau. Gwelsom y gellid cofnodi niwed mewn mannau pwyso yn well ar ward Graham Davies, drwy gofnodi maint briwiau pwyso yn gywir.

Roedd y cofnodion monitro a welsom yn dangos bod y cleifion wedi cael cymorth neu wedi cael eu hannog i symud safle tra eu bod yn y gwely neu mewn cadair freichiau yn rheolaidd. Gwelsom hefyd y staff yn helpu ac yn annog y cleifion i symud o gwmpas amgylchedd y ward. Mae'r ymyriadau nyrsio hyn yn bethau sy'n helpu i leihau risg y cleifion o ddatblygu briwiau pwyso.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi maint briwiau pwyso yn rheolaidd ac yn gywir.

Atal cwmpadau

Wrth archwilio sampl o ffeiliau gofal unigol, gwelsom fod asesiadau'n cael eu cynnal wrth i'r cleifion gael eu derbyn i'r wardiau, er mwyn helpu i leihau'r risg o gwmpo. Roedd cleifion a oedd yn wynebu risg o gwmpo yn cael eu nodi gan ddefnyddio symbolau melyn uwchben eu gwelyau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd asesiadau cychwynnol o'r risg o gwmpo yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o risg y cleifion o gwmpo yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Atal a rheoli heintiau

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y wardiau'n lân ac yn daclus.

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith ar y ddwy ward a gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, megis menig a ffedogau untro i leihau croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod mannau diheintio'r dwylo wedi eu lleoli'n strategol wrth ymyl mynedfeydd/allanfeydd at ddefnydd y staff ac ymwelwyr, er mwyn lleihau croes-heintio. Fodd bynnag, gwelsom aelod o'r staff ar ward Twymyn yn ymdrin ag anghenion gofal un o'r cleifion heb ddefnyddio cyfarpar diogelu personol priodol. Hefyd, ni welsom fawr ddim tystiolaeth o'r staff yn golchi eu dwylo rhwng cleifion ar ward Twymyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadw at bolisiâu a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau bob amser, ac yn rhoi sylw penodol i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir a golchi eu dwylo yn effeithiol.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed y cleifion wedi cael eu hasesu. Gwelsom hefyd y staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed mewn modd urddasol a digynnwrf.

Gwelsom fod diodydd ar gael yn hawdd ac o fewn cyrraedd i'r cleifion.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal, a gwelsom fod siartiau monitro bob amser yn cael eu defnyddio pan fo angen gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael hylifau a maeth a oedd yn briodol i'w hanghenion. Fodd bynnag, gwelsom fod y defnydd o siartiau cydbwysedd hylifau i gofnodi cymeriant a gwarediad yn anghyson ar ward Graham Davies.

Roedd pwysau'r cleifion yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o'r asesiad o'u cyflwr maeth a hydradu.

Gwelsom brydau amser cinio'n cael eu gweini. Roedd y prydau bwyd wedi'u cyflwyno'n dda yn ôl y golwg ac yn ymddangos yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau cydbwysedd hylifau yn cael eu cwblhau'n gyson.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion ac roedd y broses yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Gwelsom y staff yn mynd ati i roi meddyginiaeth mewn ffordd ddifrys, gan gymryd yr amser i sicrhau bod cleifion yn gallu cymryd eu meddyginiaeth heb bryderu na mynd yn ofidus. Roedd y staff a oedd yn rhoi meddyginiaeth ar ward Graham Davies yn gwisgo tabard coch, fel nad oedd unrhyw beth yn tarfu arnynt nac yn tynnu eu sylw yn ystod y broses.

Gwelwyd bod y cofnodion rhoi meddyginiaeth yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond un nyrs gofrestredig, yn hytrach na dwy, oedd yn gwirio'r cyffuriau a reolir ar ward Graham Davies, a bod rhai bylchau yn y gofrestr gwirio cyffuriau a reolir ar y ddwy ward. Yn ogystal â hynny, gwelsom dwb yn cynnwys cyfrwng tewychu a ddefnyddir i dewychu diodydd er mwyn lleihau'r risg o dagu ar gyfer rhai o'r cleifion, yn ystafell un o'r cleifion heb iddo fod wedi'i ragnodi na'i gofnodi ar y siart rhoi meddyginiaeth, ac nid oedd label adnabod claf arno. Roedd canllawiau ar gael i'r staff ar ddefnyddio cyfryngau tewychu ond nid oedd polisi ar waith.

Gwelwyd bod y cyfleusterau storio meddyginiaeth yn briodol. Fodd bynnag, nid oedd thermomedr ar gael er mwyn cofnodi'r tymheredd yn yr ystafell storio meddyginiaeth ar ward Graham Davies ac nid oedd tymereddau'r oergell feddyginiaeth yn cael eu cofnodi'n gyson ar ward Twymyn.

Roedd fferyllydd yn ymweld â ward Graham Davies unwaith yr wythnos a ward Twymyn deirgwaith yr wythnos i gynnal gwiriadau meddyginiaeth ac i roi cyfarwyddyd a chymorth i'r staff. Yn ogystal â hynny, roedd fferyllydd sy'n gweithio yn Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth yn ymweld â'r ddwy ward yn rheolaidd er mwyn cynnal archwiliadau meddyginiaeth a chynnig arweiniad i'r staff.

Nid oedd unrhyw gleifion a oedd yn cael gofal ar adeg yr arolygiad yn rhoi meddyginiaeth i'w hunain.

Gwelsom fod cynnwys y trolïau ataliad y galon yn cael eu gwirio'n rheolaidd a bod unrhyw eitemau sydd wedi dyddio yn cael eu newid

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Adolygu'r arfer lle mai dim ond un nyrs gofrestredig sy'n gwirio'r cyffuriau a reolir, er mwyn cydymffurfio â pholisïau lleol a chenedlaethol
- Sicrhau bod y staff yn cadw cofnod cywir bob tro y byddant yn gwirio'r cyffuriau a reolir
- Sicrhau bod cyfryngau tewychu'n cael eu storio'n ddiogel, a llunio polisi ar ddefnyddio a storio cyfryngau tewychu
- Sicrhau bod y staff yn monitro ac yn cofnodi'r tymheredd yn ddyddiol, yn yr ystafell storio meddyginiaethau ac ar gyfer yr oergell feddyginiaeth.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu cyfredol ar y naill ward na'r llall ar adeg yr arolygiad.

Rheoli gwaed

Dywedwyd wrthym fod y staff ar ward Graham Davies weithiau'n cyflawni trallwysïadau gwaed a bod y rhain yn ddigwyddiadau a gynllunnir, gyda gwaed yn cael ei gludo o Ysbyty Bronglais pan fo angen. Roedd rhai o'r staff wedi cael hyfforddiant ar drallwysio gwaed, a dywedwyd wrthym y byddai trefniadau'n cael eu gwneud er mwyn i'r aelodau hynny o'r staff fod ar ddyletswydd pan fyddai trallwysïadau'n digwydd.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd yr holl gyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar y wardiau'n cael ei archwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelwyd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol. Roedd gwaith cyflenwi meddygol ar y ddwy ward yn cael ei wneud gan feddygon teulu o bractisau lleol a oedd yn mynd i'r wardiau'n rheolaidd. Roedd meddygon teulu cyflenwi y tu allan i oriau yn cael eu darparu gan wasanaethau y tu allan i oriau Shropdoc.

Gwelsom fod proses drosglwyddo effeithiol ar waith rhwng sifftiau'r staff. Roedd hyn yn golygu bod system ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth gofal a diogelwch berthnasol am bob un o'r cleifion.

Yn y sampl o gofnodion gofal cleifion a welwyd; gwelsom nifer o adnoddau asesu cleifion wedi'u cwblhau yn seiliedig ar ganllawiau arferion gorau proffesiynol a mentrau cenedlaethol, gyda'r nod o helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd yr enghreifftiau a welsom yn cynnwys rhai mewn perthynas ag atal briwiau pwyso a sicrhau maeth digonol. Fodd bynnag, ni welsom fawr ddim tystiolaeth o adnoddau asesu poen ffurfiol yn cael eu defnyddio ar y ddwy ward.

Gwelsom fod prosesau a systemau gofal da ar waith ar y cyfan. Roedd y gwaith cynllunio gofal yn ystyried safbwyntiau'r cleifion ynglŷn â'r ffordd roeddent am gael gofal. Fodd bynnag, gwelsom fod y cynlluniau gofal yn gyffredinol o ran eu fformat er bod y gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod adnoddau asesu poen ffurfiol yn cael eu defnyddio ar y ddwy ward
- Sicrhau bod pob cynllun gofal, o ran ei fformat, yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ar y ddwy ward, ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chadw cyfrinachedd ar y cyfan.

Drwy archwilio cofnodion hyfforddiant, cadarnhawyd gennym fod yr holl aelodau o staff perthnasol wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Dywedwyd wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig i'w defnyddio ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Cadw cofnodion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion gofal cleifion a gwelsom eu bod wedi cael eu cynnal yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd angen i'r cofnodion gofal ar y ddwy ward gael eu ffeilio'n well er mwyn ei gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth ynddynt.

Roedd gwybodaeth yn cael ei chadw allan o'r golwg ar y ddwy ward er mwyn cadw cyfrinachedd. Fodd bynnag, gwnaethom dynnu sylw at yr angen i'r trolïau sy'n cynnwys cofnodion y cleifion ar ward Graham Davies gael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, er mwyn cadw cyfrinachedd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau:

- bod cofnodion gofal yn cael eu ffeilio'n well ar y ddwy ward, er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth ynddynt
- bod trolïau sy'n cynnwys cofnodion y cleifion ar ward Graham Davies dan glo pan na chânt eu defnyddio.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ddwy ward, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwyr y wardiau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion. Fodd bynnag, rhaid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod y canlyniadau archwiliadau mwyaf cyfredol yn cael eu harddangos ar y ddwy ward er mwyn i'r cleifion ac ymwelwyr weld sut mae'r gwasanaeth yn perfformio.

Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ar y ddwy ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y canlyniadau archwiliadau mwyaf cyfredol yn cael eu rhoi ar hysbysfyRDDau ar y ddwy ward.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelsom fod tîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol ar y ddwy ward, a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd da i'r cleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn gyfarwydd ag anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Gwelwyd copïau o rota'r staff a ddangosodd i ni fod cymysgedd sgiliau da ymhlith y staff ar ddyletswydd ar bob sifft. Gallai nifer y staff ar ddyletswydd amrywio o un sifft i'r llall, ac roedd yn ystyried y cleifion hynny yr oedd angen cymorth neu oruchwyliaeth unigol arnynt.

Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio staff nyrsio. **Fodd bynnag, erys recriwtio yn her o hyd yng nghyd-destun prinder nyrsys yn genedlaethol.** O ganlyniad i hynny, roedd dibyniaeth ar staff asiantaeth i gyflenwi rhai sifftiau ar y ddwy ward. Gall hyn effeithio ar barhad ac ansawdd gofal y cleifion os defnyddir staff dros dro nad ydynt yn gyfarwydd â'r ward a phrosesau lleol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i'r staff a oedd yn gweithio ar y ddwy ward. Gwnaed hyn er mwyn canfod sut mae'r amodau gwaith yn eu barn nhw, a deall eu safbwyntiau ar ansawdd y gofal a ddarperir i'r cleifion ar y ward neu yn eu hadrannau.

Cawsom gyfanswm o naw holiadur wedi'u cwblhau gan staff a oedd yn gweithio ar ward Twymyn, a chwe holiadur wedi'u cwblhau gan staff a oedd yn gweithio ar ward Graham Davies. Roedd y staff a gwblhaodd yr holiaduron yn cyflawni amrywiaeth o rolau ar y wardiau, ac roeddent wedi gweithio yn yr ysbyty am gyfnodau amrywiol, o ychydig fisoedd i dros 20 mlynedd.

Nododd y rhan fwyaf o'r staff yn yr holiaduron eu bod wedi ymgymryd â dysgu a datblygu gorfodol mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, diogelwch tân a rheoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd mwyafrif o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddementia, preifatrwydd a pharch yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, lleiafrif ohonynt a ddywedodd eu bod wedi cael hyfforddiant ar drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur fod yr hyfforddiant neu'r dysgu a datblygu y maent yn ei gwblhau yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gofynion proffesiynol, ac yn sicrhau eu bod yn darparu profiad gwell i gleifion ac yn eu helpu i wneud eu swyddi yn fwy effeithiol.

O arolygu cofnodion hyfforddiant y staff, gwelwyd bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr holl hyfforddiant gorfodol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Hefyd, dywedodd y mwyafrif fod eu hanghenion dysgu neu ddatblygu yn cael eu nodi mewn cyfarfodydd o'r fath, a bod eu rheolwr bob amser yn eu cefnogi i ddiwallu'r anghenion hyn.

O arolygu cofnodion Perfformiad, Arfarniadau ac Adolygiadau Datblygu (PADR) y staff, gwelwyd nad oedd y ddogfennaeth yn cael ei chwblhau'n llawn bob amser ac, yn benodol, nad oedd adran adolygiad 90 diwrnod y ffurflenni PADR wedi'i llenwi ar y rhan fwyaf o'r cofnodion a welwyd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r holiaduron eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella'r gofal a roddir i'r cleifion, a dywedodd y mwyafrif eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a wnaed a oedd yn effeithio arnynt.

Yn yr holiaduron, rhoddwyd nifer o ddatganiadau i'r staff yn ymwneud â gofal cleifion a gofynnwyd iddynt pa mor aml roeddent yn berthnasol yn eu profiad nhw. Dywedodd bron pob aelod o'r staff wrthym fod ganddynt ddeunyddiau, nwyddau a chyfarpar digonol i wneud eu gwaith. Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf ohonynt eu bod weithiau'n methu â bodloni'r holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith, er eu bod yn teimlo'n fodlon ar ansawdd y gofal y gallant ei roi i'r cleifion ar y cyfan. Roedd tua hanner y staff o'r farn bod digon o staff yn y sefydliad fel arfer i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn.

Yn yr holiaduron, roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal a bod annibyniaeth y cleifion yn cael ei hybu, ac roeddent hefyd yn teimlo'n fodlon ar ansawdd y gofal y gallant ei roi i'r cleifion. Roedd bron pob aelod o'r staff yn cytuno bod y cleifion a/neu eu perthnasau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal bob amser.

Roedd sylwadau'r aelodau o'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r tîm a'r meddyg yn gweithio'n dda i safon uchel a hyd yn oed yn mynd allan o'u ffordd i ofalu am berthnasau pan fo angen hynny arnynt ac maent hefyd yn gofalu am ei gilydd”

“Gallaf fynd adref yn teimlo fy mod wedi darparu'r gofal ag urddas o safon uchel rwyf am ei ddarparu”

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y sefydliad yn annog gwaith tîm a'i fod yn gefnogol. Hefyd, dywedodd y staff fod gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â'r cleifion yn cael eu grymuso i ddweud eu dweud a

chymryd camau gweithredu pan fydd materion yn codi, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain.

Roedd sylwadau'r aelodau o'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae fy rheolwr yn fy nghefnogi ac yn fy annog yn fawr”

“Teimlaf fod y tîm yma yn darparu gofal ardderchog a byddwn yn fwy na pharod i'm teulu/frindiau gael gofal yma.”

“Teimlaf ein bod yn dîm da sy'n helpu ein gilydd, ac rwy'n credu ein bod yn darparu gofal ardderchog.”

Dywedodd bron pob ymatebydd i'r holiaduron fod diwylliant o fod yn agored a dysgu o fewn y bwrdd iechyd, a'i fod yn helpu'r staff i nodi a datrys problemau. Hefyd, roedd pob aelod o'r staff o'r farn bod y bwrdd iechyd yn casglu'r wybodaeth gywir er mwyn monitro ansawdd y gofal ym mhob ymyriad clinigol. At hynny, roedd pob aelod o'r staff yn cytuno mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad, a bod y sefydliad yn gweithredu mewn ymateb i bryderon a godir gan gleifion.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio ac y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad petai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas.

Dywedodd pawb ond un o'r aelodau o staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod adborth ar brofiad y claf, er enghraifft arolygon cleifion, yn cael ei gasglu. Hefyd, dywedodd y staff eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth, a'u bod o'r farn ei fod yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn eu cyfarwyddiaeth neu adran.

Gofynnwyd cwestiynau i'r staff yn yr holiadur am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Gwnaeth aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

“Mae'r uwch-nyrs wedi bod yn gefnogol bob amser ac mae'n mynd ymhell y tu hwnt i'w rôl i gefnogi'r holl staff.”

“Mae'n mynd i'r afael â materion ac yn eu trafod: hefyd, mae'n agored iawn i wrando o ran cael y wybodaeth ddiweddaraf/casglu gwybodaeth newydd 'yn y fan a'r lle'. Felly, mae'r rheolwr hefyd yn cael gwybod am statws cyfredol y ward.”

Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr yn annog ei staff i weithio fel tîm, bod modd dibynnu ar eu rheolwr i'w helpu i gyflawni tasg anodd yn y gwaith

a bod eu rheolwr yn rhoi adborth a bob amser yn gefnogol mewn argyfwng personol.

Roedd bron pob aelod o'r staff o'r farn bod eu rheolwyr yn gofyn eu barn cyn i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n effeithio ar eu gwaith, ac y gellir dibynnu arnynt bob amser i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith.

Dyweddodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod pwy yw'r uwch-reolwyr yn y sefydliad, a bod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a staff y wardiau. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff fod yr uwch-reolwyr yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig yn rheolaidd, ac yn gweithredu mewn ymateb i adborth gan y staff.

Dyweddodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r holiaduron eu bod wedi cael gwybod am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant, a bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant.

Dyweddodd dwy ran o dair o'r staff wrthym yn yr holiaduron eu bod wedi gweld camgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf a allai fod wedi niweidio staff, a dywedodd tua thraean eu bod wedi gweld camgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau a allai fod wedi niweidio cleifion. Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, a'i fod yn trin aelodau o'r staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn deg.

Nododd pob aelod o'r staff y byddai'r sefydliad yn ymdrin ag unrhyw gamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad y rhoddid gwybod amdano yn gyfrinachol, ac nid oedd fawr ddim o'r farn y byddai'r sefydliad yn gweld bai ar y bobl hynny sy'n gysylltiedig â digwyddiadau o'r fath nac yn eu cosbi.

Pan ofynnwyd i'r staff yn yr holiadur a fyddent yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon am arferion clinigol anniogel, cafwyd ateb cadarnhaol gan bob un ohonynt. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am arferion clinigol anniogel, a'u bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ar ôl iddynt roi gwybod amdanynt.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y sefydliad yn gweithredu'n deg mewn perthynas â datblygiad gyrfu neu ddyrchafu, ac nad oedd

unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oedran.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod y staff yn cael hyfforddiant ar drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'u bod yn ymgymryd â phob elfen arall o'r hyfforddiant gorfodol
- Bod dogfennaeth PADR y staff yn cael ei chwblhau'n llawn, gan gynnwys adran yr adolygiad 90 diwrnod yn benodol
- Bod yr ymatebion llai ffafriol gan y staff yn holiadur AGIC yn cael eu hystyried, yn enwedig y rhai a nodir yn adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn, a'i fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod y defnydd o'r symbol pili pala yn anghyson ar ward Twymyn.	Gallai peidio â defnyddio symbolau pili pala i nodi cleifion â diagnosis o ddementia neu nam gwybyddol olygu na fydd y staff yn cefnogi neu'n trin y claf yn briodol a all, yn ei dro, arwain at drallod neu bryder i'r claf.	Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y ward.	Cymerwyd camau ar unwaith i sicrhau bod symbolau pili pala yn cael eu defnyddio'n briodol.
Gwelsom set trwytho mewnwythiennol, gyda bag o hylif trwytho wedi'i gysylltu (a ddefnyddir at ddibenion hyfforddi), mewn ystafell storio heb ei chloi ar ward Graham Davies.	Gallai'r set trwytho a'r hylif gael eu defnyddio ar ddamwain i drin claf ac, o ganlyniad i hynny, gallent achosi niwed.	Tynnwyd sylw'r nyrs â chyfrifoldeb am y ward at hyn.	Symudwyd yr eitemau oddi yno.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Cymuned Machynlleth

Ward/adran: Ward Twymyn

Dyddiad arolygu: 30 Gorffennaf 2019

ac

Ysbyty: Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes

Ward/adran: Ward Graham Davies

Dyddiad arolygu: 31 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd roedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Cymuned Machynlleth

Ward/adran: Ward Twymyn

Dyddiad arolygu: 30 Gorffennaf 2019

ac

Ysbyty: Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes

Ward/adran: Ward Graham Davies

Dyddiad arolygu: 31 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael	5.1 Mynediad amserol			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau galluedd meddyliol amserol yn cael eu cwblhau ar gyfer cleifion y mae angen gwneud cais am drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar eu cyfer a bod yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei chwblhau i safon dderbyniol.	6.2 Hawliau pobl			
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod posterï Gweithio i Wella yn cael eu harddangos ar ward Graham Davies.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi maint briwiau pwysu yn rheolaidd ac yn gywir.	2.2 Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd			
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o risg y cleifion o gwmpo yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.	2.3 Atal Cwmpadau			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadw at bolisiau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau bob amser, ac yn rhoi sylw penodol i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir a golchi eu dwylo yn effeithiol.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi			
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau cydbwysedd hylifau yn cael eu cwblhau'n gyson.	2.5 Maeth a Hyradu			
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r arfer lle mai dim ond un nyrs gofrestrdig sy'n gwirio'r cyffuriau a reolir, er mwyn cydymffurfio â pholisiau lleol a chenedlaethol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau			
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadw cofnod cywir bob tro y byddant yn gwirio'r cyffuriau a reolir.				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfryngau tewychu'n cael eu storio'n ddiogel, a llunio polisi ar ddefnyddio a storio cyfryngau tewychu.				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn monitro ac yn cofnodi'r tymheredd yn ddyddiol,				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yn yr ystafell storio meddyginiaethau ac ar gyfer yr oergell feddyginiaeth.				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adnoddau asesu poen ffurfiol yn cael eu defnyddio ar y ddwy ward.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol			
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob cynllun gofal, o ran ei fformat, yn canolbwyntio ar yr unigolyn.				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion gofal yn cael eu ffeilio'n well ar y ddwy ward, er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth ynddynt.	3.5 Cadw cofnodion			
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trolïau sy'n cynnwys cofnodion y cleifion ar ward Graham Davies dan glo pan na chânt eu defnyddio.				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y canlyniadau archwiliadau mwyaf cyfredol yn cael eu rhoi ar hysbysfyrddau ar y ddwy ward.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd			
Rhaid i'r staff gael hyfforddiant ar drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac ymgymryd â phob elfen arall o'r hyfforddiant gorfodol.	7.1 Y Gweithlu			
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau pob elfen o'r hyfforddiant gorfodol.				
Rhaid i ddogfennaeth PADR y staff gael ei chwblhau'n llawn, gan gynnwys adran yr adolygiad 90 diwrnod yn benodol.				
Dylai'r ymatebion llai ffafriol gan y staff yn holiadur AGIC gael eu hystyried, yn enwedig y rhai a nodir yn adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn, a'i fod yn				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad: